

Adroddiad Archwilio Cyfrifon – Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3065A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os byddwch yn derbyn cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, sylw yn cael ei dynnu at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae cod adran 45 yn nodi sut i ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich Cyfrifon. Mae rhai materion i'w hadrodd i chi cyn iddynt gael eu cymeradwyo.

Adroddiad Archwilio Cyfrifon

Cyflwyniad	4
Effaith COVID-19 ar yr archwiliad eleni	4
Barn archwilio arfaethedig	5
Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad	5
Argymhellion	6
Atodiadau	
Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol	7
Atodiad 2 – Adroddiad archwilio arfaethedig	10

Adroddiad Archwilio Cyfrifon

Cyflwyniad

- 1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch cyfrifon 2021-22 yn yr adroddiad hwn.
- 2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Cyllid.
- 3 Ni all archwilwyr byth roi sicrwydd llwyr bod cyfrifon yn cael eu datgan yn gywir. Yn hytrach, rydym yn gweithio i lefel o 'fateroldeb'. Mae'r lefel hon o fateroldeb wedi'i gosod i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai fel arall achosi i ddefnyddiwr y cyfrifon gael eu camarwain.
- 4 Pennwyd y lefel hon ar £1.46 miliwn ar gyfer y prif ddatganiadau a £0.34 miliwn ar gyfer Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer archwiliad eleni.
- 5 Mae rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i'r darlennydd ac rydym wedi gosod lefel o fateroldeb is ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:
 - Tâl uwch swyddogion £1,000
 - Datgeliadau uwch swyddogion/aelodau sy'n gysylltiedig â £1,000
- 6 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni yn sylweddol.
- 7 Yn ein barn broffesiynol, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; parhau i fod yn annibynnol och chi eich hunain; ac, nid yw ein gwrthrychedd wedi'i beryglu mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthynas rhyngom ni a chithau y credwn y gallai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth.

Effaith COVID-19 ar yr archwiliad eleni

- 8 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith barhaus ar y ffordd y cynhaliwyd ein harchwiliad. Rydym yn crynhoi yn **Arddangosyn 1** y prif effeithiau. Ar wahân i'r lle rydym yn gwneud argymhellion penodol, mae'r manylion yn **Arddangosyn 1** wedi'u darparu at ddibenion gwybodaeth yn unig i'ch helpu i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar y broses archwilio eleni.

Arddangosyn 1 - Effaith COVID-19 ar yr archwiliad eleni

Amserlen	<p>Mae COVID-19 wedi cael effaith gyfyngedig ar yr amserlen archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cawsom y cyfrifon drafft ar 31 Mai 2022 a oedd yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni.• Cwblhawyd yr archwiliad yn sylweddol erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno, sef 11 Gorffennaf 2022.• Disgwyliwn i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi ar 29 Gorffennaf 2022.
Tystiolaeth archwilio	<p>Rydym wedi adeiladu ar ein profiad o gwblhau'r archwiliad o bell mewn blynyddoedd blaenorol ac nid effeithiwyd yn sylweddol ar ein gallu i gael tystiolaeth archwilio eleni – er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none">• cawsom fynediad uniongyrchol i brif system gyfrifyddu'r Awdurdod i'n galluogi i adolygu cofnodion ariannol a dewis eitemau i'w profi;• rydym wedi defnyddio ffolder gyffredin a rennir i gael tystiolaeth archwilio yn ddiogel gan eich swyddogion; ac• rydym wedi defnyddio Microsoft Teams i drafod materion gyda'ch swyddogion, gofyn am ddogfennaeth neu systemau adolygu yn uniongyrchol drwy rannu ein sgriniau bwrdd gwaith.

Barn archwilio arfaethedig

- 9 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Cynrychiolaeth i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.
- 10 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol am rai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.
- 11 Mae'r Llythyr Cynrychiolaeth yn cynnwys cadarnhadau penodol y mae'n ofynnol i ni eu cael gennych o dan safonau archwilio.
- 12 Mae ein hadroddiad archwilio arfaethedig yn **Atodiad 2**

Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad

Camddatganiadau heb eu cywiro

- 13 Nid oes unrhyw gamddatganiadau wedi'u nodi yn y cyfrifon, nad ydynt wedi'u cywiro o hyd.

Camddatganiadau heb eu cywiro

- 14 Roedd y datganiadau ariannol a'r papurau gwaith o ansawdd uchel ac nid oedd unrhyw gamddatganiadau cywiredig sylweddol. Cytunwyd ar rai mân ddiwygiadau naratif a datgelu gyda'r rheolwyr. Mae'r holl welliannau wedi'u gwneud yn fersiwn derfynol y datganiadau ariannol.

Materion arwyddocaol eraill sy'n codi o'r archwiliad

- 15 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn adrodd ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi i chi. Nid oedd unrhyw faterion o bwys yn codi eleni.

Argymhellion

- 16 Bydd argymhellion sy'n deillio o'n harchwiliad yn cael eu hadrodd i'r rheolwyr ar wahân. Nid oes unrhyw faterion sy'n ddigon arwyddocaol i warantu eich bod yn tynnu eich sylw atynt.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

[Llythyren y corff archwiliedig]

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Wales Audit Office
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

25 Gorffennaf 2022

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2021-22

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 er mwyn mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch a'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud ymholiadau fel y credwn yn ddigonol, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau rheoli

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau ar gyfer:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2021/22; yn benodol, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny;
- dylunio, gweithredu, cynnal a chadw ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu:

- mynediad llawn i:
 - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennau ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

- gwybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gofyn amdani gennym at ddibenion yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig i staff y gwnaethoch benderfynu bod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol gael eu camddatgan yn sylweddol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth am dwyll neu amheuaeth o dwyll yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae'n cynnwys:
 - rheolaeth
 - cyflogeion sydd â rolau sylweddol mewn rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu amheuaeth o dwyll, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëir gan gyflogeion, cyn-weithwyr, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth am bob achos hysbys o beidio â chydymffurfio neu amheuaeth o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- hunaniaeth yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt;

Sylwadau datganiad ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi'u cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau sylweddol a ddefnyddir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig yn briodol i sicrhau cydnabyddiaeth, mesur neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhodddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig a'u datgelu.

Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n digwydd yn dilyn y dyddiad adrodd y mae angen eu haddasu neu eu datgelu wedi'u haddasu neu eu datgelu.

Mae'r holl ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol neu bosibl y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'u datgelu i'r archwilydd a'u cyfrif a'u datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.

Sylwadau gan y Pwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr uchod wedi'u trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwirioneddol a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu ar 25 Gorffennaf 2022.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd er mwyn gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau ei bod wedi'i chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

[Swyddog sy'n llofnodi ar ran y rheolwyr]

Dyddiad:

Llofnodwyd gan:

[Swyddog neu Aelod sy'n llofnodi ar ran y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu]

Dyddiad:

Atodiad 2

Adroddiad Archwilio Arfaethedig

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer aelodau o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru;
- Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru;

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae Cyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Datganiad Cyfrif y Gronfa a'r Asedau Net a nodiadau cysylltiedig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar 31 Mawrth 2022 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau ymhellach o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar Awdurdod Tân

ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Adroddiad ynghylch gofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22;
- Mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau

ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy etheriid

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu na dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiad o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, ac mae'n cynnwys twyll. Rwyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru mewn cysylltiad â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried gan weithredu fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll drwy bostio cyfnodolion anarferol;
- Cael dealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y chyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r chyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.
- Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau

archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleiddra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon dealltwriaeth Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ann-Marie Harkin
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
28 Gorfennaf 2022

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Website: www.archwilio.cymru/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn croesawu



gohebiaeth a galwadau ffôn yn
Gymraeg a Saesneg.